
PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 20 MEDI 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Freya Bentham, Steve Collings, Alwyn Gruffydd, Elwyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Elfed Roberts a Gareth Williams.

Aelodau Cyfetholedig: Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

Swyddogion yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democraidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi)
Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned)
Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu Economaidd)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Debbie A.W.Jones (Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)
Paul Matthews-Jones (Arweinydd Craidd – Uwchradd - GwE)
Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd – GwE)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:

Sion Owen (Swyddog Cefnogi Busnes y Cyngor)

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Menna Baines, Aled Evans, Judith Humphreys, Huw Wyn Jones, Mair Rowlands a Cemlyn Williams; Anest Gray Frazer (yr Eglwys yng Nghymru) a Rita Price (Yr Eglwys Gatholig).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2018, fel rhai cywir.

5. GWEITHGAREDD CYNGOR GWYNEDD YNG NGHYSWLLT BREXIT

Cyflwynwyd – adroddiad yr Arweinydd (yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Aelod Arweiniol Brexit) a'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu'r Economi yn amlinellu gweithgareddau'r Cyngor mewn ymateb i benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit).

Ymhelaethodd yr Arweinydd, y Pennaeth a'r Rheolwr ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod y sylwadau a gyflwynwyd yn adlewyrchu ei bod yn gyfnod dyrys o ansicrwydd a bod y sefyllfa'n un anodd iawn, a hynny yn bennaf oherwydd diffyg gwybodaeth.
- Bod pryder wedi'i fynegi bod yr amserlen yn byrhau, ond bod yna ymdeimlad o fethu paratoi oherwydd y diffyg gwybodaeth.
- Bod aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar o'r cadarnhad o sefyllfa'r prosiectau arian Ewropeaidd cyfredol.
- Bod angen sicrhau bod Gwynedd yn parhau yn rhan o'r trafodaethau rhanbarthol er mwyn gallu paratoi ar gyfer derbyn unrhyw arian, os bydd arian yn dod, boed hynny drwy ba ffynhonnell bynnag.
- Y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r pwyllgor unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael, yn arbennig o ran yr arian i fusnesau bychain a sut mae'r Cyngor yn gallu cynorthwyo'r busnesau hynny i gael gafael ar yr arian.
- Gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi cyflwyniad i'r pwyllgor, neu holl aelodau'r Cyngor, ar natur eu mewnbwn i'r trafodaethau.

6. ADRODDIAD AR GANLYNIADAU'R HAF 2018

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar ganlyniadau drafft haf 2018.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet, y Pennaeth a chynrychiolwyr GwE ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Crynhodd y Cadeirydd brif gasgliadau'r drafodaeth fel a ganlyn:-

- Bod prif bwyslais y drafodaeth wedi bod ar y gostyngiad sylweddol yng nghanlyniadau Saesneg, Cyfnod Allweddol 4 (TGAU), ond bod y pwyllgor yn deall bod y Pennaeth Addysg eisoes wedi cysylltu â Chymwysterau Cymru yn nodi anfodlonrwydd ynglŷn â'r cynnydd sylweddol a dirybudd yn lefel trothwy graddau 'B' ac 'C'. Yn ddibynnol ar yr ymateb i hynny, 'roedd yr Aelod Cabinet yn bwriadu cysylltu ymhellach ar lefel wleidyddol.
- Cydweld y bydd yr Aelod Cabinet yn diweddarau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd pan ddaw'r ymateb gan Gymwysterau Cymru, gan fod cryn dipyn o sylwadau'r pwyllgor yn ddibynnol ar yr ymateb hwnnw.
- Bod pryder wedi'i fynegi hefyd ynglŷn â'r posibilrwydd o newid sylweddol a di-rybudd yn ffiniau graddfeydd pynciau eraill i'r dyfodol ac os daw ymateb i hyn hefyd gan Gymwysterau Cymru, bod yr Aelod Cabinet eto'n diweddarau'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fel bod y pwyllgor yn gwybod beth sy'n digwydd.
- Bod y pwyllgor wedi nodi pryder yn benodol oherwydd effaith y newid sylweddol a di-rybudd yn y ffiniau graddfeydd Saesneg ar y disgyblion yn unigol a'u rhagolygon gyrfa maes o law, yn arbennig felly'r 7% i 8% na lwyddodd i gyrraedd eu targed disgwylidig o radd 'B' neu radd 'C' o ganlyniad i'r newid yn y trothwy.
- Bod pryder wedi'i fynegi yn ogystal ynglŷn â'r effaith negyddol posib' ar athrawon ac ar y daith gwella o fewn yr ysgolion a'r gwaith tracio, ayb, sydd wedi ei ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

- Bod yna rywfaint o nerfuswydd ymhlith yr aelodau ynglŷn â'r newidiadau i'r drefn o adrodd ar fesurau perfformiad, gyda llai o bwyslais ar ddata cymharol a mwy o bwyslais ar hunan arfarnu, ayb. Mae lle i'r aelodau fod yn cadw golwg ar hyn trwy waith y pwyllgor, eu gwaith fel llywodraethwyr ysgolion a'r data treigl o flwyddyn i flwyddyn.
- Cydweld bod adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r pwyllgor yn Ionawr 2019 ar ddata terfynol Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 ac gyda'r adroddiad hwnnw i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r arholi drwy gyfrwng y Gymraeg / Saesneg.

7. YMCHWILIAD CRAFFU I EFFAITH DATBLYGIADAU ADEILADAU YSGOLION NEWYDD AR ANSAWDD ADDYSG

Cyflwynwyd – adroddiad y Cadeirydd yn gwahodd y pwyllgor i fabwysiadu briff a chadarnhau aelodaeth yr ymchwiliad craffu.

Nodwyd y dylid cywiro'r rhestr ym mharagraff 5 o'r ysgolion y bwriedir eu hastudio i gynnwys Ysgol Penybryn, Tywyn.

PENDERFYNWYD

- (a) **Mabwysiadu'r briff (a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad).**
- (b) **Cadarnhau mai aelodau'r ymchwiliad fydd y Cadeirydd, y Cynghorydd Beth Lawton, ynghyd â'r Cynghorwyr Steve Collings, Cai Larsen a Paul Rowlinson.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.45 y.h.

CADEIRYDD